# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1300(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Hydref 2008

**At Mick Bates:**

Yn ystod sesiwn holi'r Prif Weinidog ar 7 Hydref, addewais ysgrifennu am y cymorth ymarferol sydd ar gael i gyflenwyr ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

Y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yw'r brif ffynhonnell cymorth ariannol o hyd ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae'n gofyn bod cyflenwyr trydan trwyddedig yn cael canran benodol o'r trydan y maent yn ei gyflenwi o ffynonellau adnewyddadwy er mwyn ennill Tystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (ROCs). Mae'r ganran hon yn cynyddu bob blwyddyn ac mae'n helpu i leihau allyriadau carbon. Mae gwerthu ROCs yn gymhelliant ariannol i gynhyrchu ynni di-garbon yn ogystal â bod yn hwb i incwm perchnogion ffermydd gwynt, trwy eu helpu i adennill costau cyfalaf adeiladu'r ffermydd. Y datblygwr sy'n talu'r holl gostau hyn. Ar hyn o bryd (2008), mae pob MWh o ynni'n denu 1 ROC gwerth £53.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth San Steffan wedi ymgynghori ar fandio'r ROCs er mwyn iddynt allu gweithio ar raddfa ehangach, a pherswadio cyflenwyr trydan i gael eu hynni o dechnolegau adnewyddadwy heblaw am ynni wynt. Mae'r rhain yn cynnwys biomas, microgynhyrchu ac ynni'r llanw.

Mae'r awgrym i greu cymhelliant ariannol i gyflenwyr ynni bychan leihau carbon yn un cymhleth o ran pennu faint yn union o garbon sy'n cael ei arbed, gan ei bod yn amrywio i ba raddau y mae ynni adnewyddadwy yn disodli glo, nwy neu drydan niwclear ar unrhyw un adeg. Mae'r sefyllfa'n amrywio'n barhaol gan ddibynnu ar y marchnadoedd trydan.

Roeddwn i'n croesawu'n gryf gyhoeddiad diweddar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid yn yr Hinsawdd fod Llywodraeth San Steffan yn bwriadu bwrw ymlaen â'r taliadau i unedau microgynhyrchu am gyflenwi trydan i'r grid. Mae hyn wedi bod yn gymhelliant llwyddiannus sydd wedi rhoi hwb i'r farchnad mewn gwledydd Ewropeaidd eraill ac mae'n rhywbeth y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn galw amdano ers amser hir.

Mae Microgynhyrchu'n rhan bwysig o'r ymgynghoriad ar Drywydd Ynni Adnewyddadwy Cymru, ac rydym yn awyddus i ficrogynhyrchu gael rôl bwysicach yn y cymysgedd ynni.

Mae cymorth ariannol i brosiectau microgynhyrchu a phrosiectau ynni adnewyddadwy yn y gymuned yng Nghymru i'w gael o amryw o ffynonellau ar ffurf grantiau, benthyciadau cystadleuol a chymhellion treth. Er enghraifft, mae perchnogion cartrefi yng Nghymru'n cael manteisio ar y Rhaglen Adeiladau Isel eu Carbon (LCBP) sy'n cael ei gweinyddu trwy'r DU ac a fydd bellach yn rhedeg hyd at 2010. Hefyd, rydym yn datblygu peilot ar gyfer Rhaglen Adeiladau Isel eu Carbon i Gymru a fydd yn canolbwyntio ar osod technoleg Ficrogynhyrchu yng nghartrefi'r rhai sy'n dioddef tlodi tanwydd.

Trwy Fframwaith Strategol i Arafu'r Newid yn yr Hinsawdd yn y rhaglen Gydgyfeirio, rydym yn datblygu prosiect strategol i helpu prosiectau ynni adnewyddadwy yn y gymuned.

Mae cyngor ac arian hefyd ar gael gan Ganolfannau Cynghori'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, ac mae Llywodraeth y Cynulliad wedi helpu i'w hariannu. Mae'r Canolfannau'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ac i grwpiau cymunedol ar dechnolegau adnewyddadwy, dulliau arbed ynni a ffynonellau arian ar gyfer prosiectau newydd.

Fel sy'n cael ei nodi yn ein Trywydd Ynni Adnewyddadwy, byddwn yn annog cyflenwyr i dalu pris teg am allforio trydan sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol i'r grid. Yn ogystal â hyn, rydym wedi'i gwneud yn glir i Lywodraeth y DU ein bod am ei gwneud yn haws i unedau ynni adnewyddadwy bach gysylltu â'r rhwydwaith, fel y bydd y bobl sy'n cynhyrchu eu hynni'u hunain ar eu hennill o allforio'r ynni sydd ganddynt dros ben i'r grid.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1311(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Hydref 2008**

**At Angela Burns:**

Yn ystod y Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 7 Hydref, cytunais y byddwn yn ysgrifennu atoch ynghylch pa mor berthnasol yw'r rhagolygon chwyddiant a dyraniadau'r gyllideb.

Yn ystod Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2007 tybiwyd bod chwyddiant yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn agos at y targed o 2% trwy gydol y cyfnod gwariant. Ar sail hyn, pennwyd setliad Cymru am y tair blynedd rhwng 2008-09 a 2010-11. Ers yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, mae chwyddiant yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr wedi cynyddu o 2.1% ym mis Rhagfyr 2007 i 3.3% ym mis Mai 2008 a 4.7% ym mis Awst oherwydd y cynnydd ym mhrisiau bwyd ac ynni.

Mae lefel uchel o ansicrwydd o ran rhagolygon chwyddiant. Mae'r Gronfa Ariannol Ryngwladol wedi nodi yn ei adroddiad mwyaf diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2008 fod rhagolygon chwyddiant yn y gwledydd sy'n datblygu yn ddibynnol iawn ar newidiadau ym mhrisiau nwyddau ac yn fwy na hynny, ar brisiau olew. Mae symudiadau o'r fath ac felly'r llwybr y bydd chwyddiant yn ei ddilyn yn y dyfodol yn anodd iawn i'w rhagweld yn llwyddiannus.

Fodd bynnag, mae'n ymddangos yn annhebygol iawn y bydd y cyfraddau uchel diweddaraf yn adlewyrchu'r sefyllfa ar gyfer yr holl gyfnod sy'n cael ei gynnwys yn y gyllideb. Yn wir, mae Banc Lloegr yn disgwyl i'r gyfradd chwyddiant presennol ostwng yn sylweddol. Mae'r Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF) o'r un farn a chaiff hyn ei adlewyrchu ymhellach yng nghonsensws y daroganwyr annibynnol.

Oherwydd systemau rheoli ariannol da cyn y dirywiad yn y sefyllfa ariannol bresennol, roedd Llywodraeth y Cynulliad yn gallu rhyddhau rhagor o gyllid o gronfeydd wrth gefn fel ei bod yn gallu buddsoddi ymhellach yn ein gwasanaethau cyhoeddus allweddol dros y ddwy flynedd nesaf. Yn ogystal â hyn, mae'r Comisiwn ar Ariannu a Chyllid bellach wedi cael ei sefydlu. Bydd y Comisiwn yn adolygu pa mor briodol yw fformiwla Barnett a sut y mae'n gweithio wrth fynd ati i benderfynu ar y dyraniad ariannol cyffredinol ar gyfer Cymru gan geisio nodi hefyd ddulliau ariannu posibl eraill.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1324(FM)a gyhoeddwyd gan John Griffiths, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, Tachwedd 2008**

**At Janet Ryder:**

Yn dilyn eich cwestiwn i'r Prif Weinidog ar 7 Hydref 2008 ynghylch y cyllid ar gyfer y prosiect "Canolfan Sgiliau 14-19 Wrecsam", mae'n bleser gennyf ddarparu rhagor o wybodaeth i chi.

Ym mis Chwefror 2008, cyflwynodd Coleg Iâl a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Amlinelliad o Achos Busnes i'r Adran am gyllid cyfalaf i adeiladu Canolfan Sgiliau. Amcangyfrifwyd y byddai cyfanswm y gost yn £5.04m a'r cyfraniad oedd yn angenrheidiol i Lywodraeth y Cynulliad ei gyfrannu oedd £4.757m (94.3%). Amcangyfrifir bod y gost cyn adeiladu oddeutu £320,000.

Er mwyn symud y prosiect yn ei flaen, ym mis Medi 2008, cytunodd yr Adran yr wyf fi'n gyfrifol amdani i roi £50,000 i Rwydwaith 14-19 Wrecsam fel eu bod yn gallu ei ddefnyddio i dalu am y costau cyn adeiladu. Hefyd, fe sefydlwyd bryd hynny fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam mewn sefyllfa i dalu gweddill y costau. Ers hynny, rydym wedi cael ein hysbysu bod partneriaid y prosiect yn gweithio gyda chwmni o ymgynghorwyr lleol i ddiogelu caniatâd cynllunio.

Y cam nesaf yn y broses ariannu yw gofyn i'r Adran wahodd yr holl ymgeiswyr a fu'n llwyddiannus yn y cam o'r broses sy'n ymwneud â'r Amlinelliad o Achos Busnes gyflwyno eu cynigion ar gyfer Achosion Busnes Llawn. Caiff y manylion a'r amserlenni eu cyhoeddi'n fuan.

Gwneir y penderfyniad terfynol ynghylch pa brosiectau i'w hariannu fel rhan o ddyraniad cyllid cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad unwaith bod y cynigion ar gyfer Achosion Busnes Llawn wedi cael eu hystyried.